
## JABAS
### PENRI JONES



Blain yn dechrau ar S4C. Mae'r gyfres yn seiliedig ar Jabas, nofel gan Penri Jones. Mae'r nofel yn dilyn hanes plant yn eu harddegau yn ardal Llŷn ac mae'r llyfr wedi bod yn boblogaidd iawn ers eu gyhoeddi dwy flynedd yn ôl.

Ffilmiwyd y gyfres ym mis Awst y llynedd yn ardal Pwllheli ac mae un o'r sêr, sef Dafydd Jones Williams, sy'n hannu o'r Ffôr ger Pwllheli, nawr yn fyfyriwr ym Mholitechnig Cymru, Pontypridd.

Fel amryw o'i ragflaenwyr dechreuodd gyrfa llwyfan Dafydd yn eisteddfodau'r fro ac fe fu'n fuddugol gyda Nia Griffith ar y Ddeialog yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Ogwen. Yna daeth y cyfle i gymeryd rhan yn Jabas. Bu nifer o gyfweliadau a rhagbrofion gyda'r Cyfarwyddwr, Emlyn Williams, tra roedd Dafydd yn Ysgol Glanymor, Pwllheli yr haf diwethaf. Dewiswyd tri o'r prif-gymeriadau o Ysgol Glanymor, mae Dafydd yn chwarae rhan Howard - bachgen sy'n ymhel â drugs ond yn gwella ei ffordd erbyn y diwedd.

Cymerwyd naw wythnos dros wyliau'r haf i wneud y ffilmio ac yn aml roedd rhaid gohirio diwrnod o waith i gael tywydd addas. "Roedd yn reit anodd dysgu techneg bod o flaen camerau am y tro cyntaf", ac yn ôl Dafydd "doedd Emlyn Williams ddim yn malu awyr os oedd rhywbeth o'i le ac erbyn y diwedd ro'n i'n mwynhau o'n ofnadwy". "Ma hi'n ddigon hawdd dysgu sgript ond ma' rhaid meddwl sut ma' person yn ymateb i sefyllfa cyn gwneud y rhan." Oherwydd ei fod yn chwarae rhan Howard ar ôl iddo gael 'fix' roedd rhaid i Dafydd gael Make-up digon gwelw "Pan o'n i'n gweld fy hun yn y gwydr o'n ni'n teimlo'n sâl ac yn chwarae'r rhan yn well wedyn".

Mae'n amlwg fod Dafydd wedi cael modd i fyw drwy chwarae'r rhan yn Jabas a chael cerdyn Equity dros-dro. Ers hynny fe fu'n perfformio yng nghynyrchiad Cwmni Drama Clwb y Bont yng Ngwyl Ddrama'r Tafod.

Os yw'r ffilm hanner cystal a'r llyfr fe fydd na wylio cyson ar Jabas dros y Gwanwyn. Pob hwyl i Dafydd yn ei yrfa yn y Poli ac ar y llwyfan.

## BETHLEHEM GWAELOD Y GARTH

Ar fore Sul Mawrth 6ed perfformiwyd pasiant 'Camp y Campau' a ysgrifennwyd yn arbennig gan Emyr Edwards i ddathlu'r pedwarcanmlwyddiant

Roedd cast o 25 a chôr yn portreadu cyfres o olygfeydd yn olrhain hanes William Morgan o'i enedigaeth hyd at gyflawni ei gamp o gyfieithu'r Beibl.

Ar ddiwedd y gwasanaeth rhannwyd 102 o Feiblau ymysg plant a phobl ifanc y Capel.

### ESTYNIAD I'R TEULU

Llongyfarchiadau i Angharad ac Alwyn Harding Jones, Cilmeri, Ffynnon Tâf ar enedigaeth merch, chwaer i Gwion a Gwern.



